



Ysgol Pentreuchaf

15. Polisi Asesu Crynodol

(I'w ddefnyddio ochr yn ochr gyda'r **Polisi Asesu Ffurfiannol**)

Nod

Adnabod lle mae'r plentyn wedi cyrraedd yn y dysgu gan roi darlun cryno o'r hyn y mae yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud fel y gellir cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn yr addysgu a'r dysgu.

Amcanion

'Gwahaniaethu'n glir rhwng asesu ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu) at bwrpas dyfarnu graddau a llunio adroddiadau, sydd â threfn wedi'i hen sefydlu, ac ac asesu crynodol (asesiad o ddysgu) gan sicrhau bod cydbwysedd a chysylltiad addas rhwng y ddau.

Ymateb i'r gofyn am 'flaenoriaethau gwahanol, trefnau newydd ac ymrwymiad newydd' oherwydd Cwricwlwm 2008 (*'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu'*: APADGOS 2008).

Canllawiau

Mae'r canllaw hwn yn cydymffurfio â gofynion yr adolygiad o'r Cwricwlwm 'Cenedlaethol' sydd yn cael ei weithredu ers mis Medi 2008 ymlaen.

1. Parhau i dracio cynnydd pob disgybl ym mhob pwnc yn rheolaidd, ond bellach gwneud hynny drwy ymddiried ym marn broffesiynol yr athrawon. Mae dwy egwyddor sylfaenol yn y dull a ddefnyddir ar gyfer asesu a chadw cofnodion.
2. Yn gyntaf, yn unol â chyfarwyddyd Estyn (Rhagfyr 1993) ni fyddwn yn cadw tystiolaeth fanwl i gefnogi'r asesiad. Bydd llawer o wybodaeth ar gael mewn llyfrau amrywiol, ar fur y dosbarth, mewn ffotograffau ac mewn gwaith llafar a chorfforol diflanedig.
3. Yn ail, bydd y pwyslais ar 'Asesu ar Gyfer Dysgu' yn unol â pholisi'r AALL. Y wedd bwysicaf ar asesu yw'r wedd **ffurfiannol** sy'n dangos i blentyn sut y gall wella ei waith. Fel arfer, mae hwnnw'n digwydd fel rhan o addysgu dydd-i-ddydd ac yn bwydo ymlaen i waith cynllunio. Mae'n bwysig dadansoddi'r asesiadau a nodi'r camau nesaf ar gyfer symud unigolion, grwpiau neu ddsbarth cyfan ymlaen
4. Mae'n bwysig dadansoddi'r asesiadau i unodi'r camau nesaf ar gyfer symud unigolion, grwpiau neu ddsbarth cyfan ymlaen

Asesu Sylfaen

Ystyrir ei bod yn hanfodol i ni gynnal asesiad o bob plentyn ar ddechrau'r flwyddyn Derbyn.

Gwneir defnydd pwrpasol o asesiadau cyn-ysgol er mwyn cynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer dyfodol y plant, gan gynnwys 'Y Cam Cynta' – dogfen a gwblheir ar ddechrau'r flwyddyn Meithrin, dogfennaeth o unedau cyn-ysgol (plant ag ADY), asesiad seicolegol/meddygol, unrhyw asesiad arall

Defnyddir y disgrifyddion perfformiad a nodir yn y cynllun sirol:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Iaith, Llythrennedd a Medrau Cyfathrebu

Datblygiad Mathemategol

Asesu'r Cyfnod Sylfaen

Defnyddir offeryn pwrpasol (Incerts) i gofnodi cynnydd pob plentyn yn erbyn y canlyniadau dymunol. Cofnodir cynnydd y plant yn dymhorol ac fed gofnodir asesiad gwaelodlin i CSM a CSD yn ystod y tymor cyntaf. Cedwir enghreifftiau o'u gwaith am y flwyddyn gyfan.

Cyfnod Allweddol 2

Datblygwyd deilliannau a disgrifiadau lefel y CC er mwyn cynnal asesu crynodol o'r dysgu ar ddiwedd cyfnod allweddol, h.y. asesu dysgu. Nid ydynt yn gysylltiedig â chyfnod neu gyfnod allweddol penodol ond maent yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddu dysgwyr sy'n

gweithio ar ddeiliant neu lefel benodol. Maent yn cyfeirio at **gyrhaeddiad dysgwr dros amser a thros ystod o waith**, gan roi golwg gyfannol ar nifer o nodweddion amrywiol. Llunnir dyfarniad yn seiliedig ar y dadansoddiad sy'n **cydfynd orau**, lle bydd pob disgrifiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â disgrifiadau o ddeilliannau a lefelau cyfagos, ac i waith y dysgwr fe bennir y deiliant neu'r lefel sy'n cydfynd orau. (*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu*: APADGOS 2008)

Defnyddir offeryn pwrpasol (Incerts) ar gyfer cofnodi asesiadau ym mhob pwnc. Mi fydd lefelrwydd y nodau addysgol yn wybyddus i'r athro/athrawes ac yn fodd i hwyluso'r gwaith asesu. Ond rhaid pwysleisio mai **mesur lefelrwydd yn unig** y byddwn yn ystod y cyfnod allweddol, ni fyddwn yn gosod lefel hyd nes y bydd disgybl yn cyrraedd diwedd y cyfnod allweddol. Rydym yn mesur y cynnydd mae'r disgybl yn ei wneud er mwyn cyrraedd targed ar ddiwedd Cyfnod Allweddol. Mae cysylltiad felly, rhwng y cofnodion cynllunio a'r cofnodion asesu - mae gofynion y lefelau yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf yn y broses ddysgu. Mae pob cofnod yn cael ei ddyddio. Y nod yw cadw golwg ar gynnydd, rhoi darlun cryno o'r hyn y mae plentyn yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Asesu Pynciau Craidd

Asesir pob agwedd o bob pwnc craidd yn ystod y flwyddyn ac eto cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r system Incerts yn tracio cyrhaeddiad pob plentyn ym mhob agwedd.

Gall gymryd cyfnod gweddol hir i blant yn symud o un lefel i'r nesaf, ac mae'r system asesu yn rhoi asesiad manwl pwynt degol i ni i ddangos cynnydd. Os yw plentyn yn sgorio'n îs na'r disgwyl mewn unrhyw agwedd o bwnc, caiff hwn ei adnabod er mwyn i ni dargedu'n briodol ar ei gyfer/chyfer i sicrhau ei fod/bod yn cyrraedd ei botensial/photensial.

Edrychir yn gyfannol ar berfformiad plentyn gan ddefnyddio'r system Incerts a lefelau'r cwricwlwm, ac yna nodir y lefelrwydd ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol.

Asesu Pynciau Di-graidd

Asesir pob pwnc sylfaen erbyn diwedd y flwyddyn.

Ni ddefnyddir tasg benodol ar gyfer pob asesiad, yn hytrach, defnyddir sawl offeryn fel sail i asesu perfformiad plentyn. Yr hyn sy'n bwysig yw dewis offeryn asesu sy'n addas i ddibenion y gwahanol bynciau. Mewn rhai pynciau, gellir defnyddio taflenni gwahanol ar gyfer unedau gwaith amrywiol.

Cyfdyddio Cofnodion

Mae'n rhaid cyfdyddio cofnodion o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn medru adrodd yn hyderus i rieni yn adroddiad blynyddol y plentyn. Rydym yn bwrw golwg ar gynnydd ochr yn ochr â'r plentyn gan ddefnyddio amrywiaeth o offerynnau.

Cymedroli

Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i fod yn rhan o broses gymedroli yr AALI, sy'n rhoi cyfle i ni gael cadarnhad o gywirdeb yr asesiadau a wneir.

Gwneir trefniadau yn yr ysgol ac yn y dalgylch i gyd-drafod a chyd-asesu samplau o waith plant. Dyma un ffordd o sicrhau cysondeb yn y gwaith asesu. Mewn achos lle bo gwahaniaeth mawr rhwng canfyddiadau asesu unrhyw aelodau o'r staff, dylai'r Cydlynnydd asesu drefnu i ddelio â'r mater.

Portffolio Ysgol Gyfan

Yn unol â chyngor Estyn ac APADGOS, cedwir samplau o waith yn y pynciau craidd a di-graidd (ble bo hynny'n ymarferol) mewn Portffolios er mwyn enghreifftio Cyfnod Sylfaen a CA2.

Asesu a Chyfeirio plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Defnyddir rhai profion deiagnostig i asesu cynnydd y plant sydd ag ADY. Amlinellir y drefn lawn ar gyfer asesu a chyfeirio yn y ddogfen bolisi ar gyfer ADY

Oherwydd bod gofyn i ysgolion, yn unol â Deddfau Addysg 1981 a 1993, ganfod plant sydd ag ADY a darparu ar eu cyfer, bydd angen casglu gwybodaeth ychwanegol, a darperir Cynllun Addysg Unigol (CAU) ar gyfer y plant hyn (trwy drafodaethau gyda'r plant, y rhieni, yr athrawes ddsbarth a'r cydlynnydd) er mwyn ystyried a cheisio deall natur yr anawsterau sydd ganddyn nhw. Gall y wybodaeth hon gynnwys cyfraniadau gan aelodau o'r gwasanaethau cymorth e.e. athrawon teithiol ADY, therapyddion lleferydd a.y.y.b. Bydd y camau datblygiad a nodir, o angenrheidrwydd, yn llawer manylach yn y CAUau.

Mae'r polisi ADY yn argymhell y drefn y dylid ei dilyn wrth asesu'r plant hyn, ac yn cynnig rhai dulliau y gellir eu mabwysiadu pan amheuir nad yw cynnydd plentyn yn gyson â'r hyn a ddisgwyllir ganddo.

Adrodd i Rieni

Gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod cynnydd eu plant dair gwaith y flwyddyn, yn Nhymor yr Hydref, Tymor y Gwanwyn ac yn Nhymor yr Haf. Byddwn yn trafod a chydweld ar dargedau unigol i bob plentyn at bob noson rieni, i'w trafod gyda'r plant a'u rhieni.

Byddwn yn anfon adroddiadau blynyddol i rieni o leiaf wythnos cyn y noson agored a'u gwahodd i drafod y cynnwys gyda'r athrawon ar ddyddiad penodol. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol cynhwysir manylion am gyrhaeddiad yn ôl targedau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ogystal mae croeso i rieni ddod i drafod unrhyw bryderon gyda'r staff unrhyw amser yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae'n bosibl i'r athrawon ofyn am weld rhieni os byddant yn teimlo y byddai hyn o fudd i'r plentyn.

Cedwir copiâu o adroddiadau'r plant yn eu ffeiliau personol yn y Swyddfa neu yn ddigidol ar y 'server' mewnol. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion rheoliadau defnyddir y system Incerts i greu adroddiadau.

Bydd y Cydlynnydd ADY a'r athrawes ddsbarth yn cyfarfod rhieni disgyblion ADY a thrafod eu cynnydd ddwywaith y flwyddyn. Bydd cyfle i rieni a phlant fynegi barn a rhoi mewnbwn yn y CAUau.

Y Plentyn Cyfan

Credir ei bod yn bwysig rhoi cyfle i'r plant drafod y sgiliau, galluedd, nodweddion a phrofiadau a amlygir yn yr ysgol a'r tu hwnt i'r cwrs addysg.

Profion

Yn unol a rheoliadau Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnal 'Profion Cenedlaethol' yn yr ysgol i ddisgyblion B2 i B6 – Darllen Cymraeg, Darllen Saesneg (CA2 yn unig), Rhifedd Gweithdrefnol, Ymresymu Rhifyddol. Bydd y profion yn rhoi sgorau oedran darllen/rhifyddol a sgôr safonol i bob disgybl. Bydd y rhieni yn derbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad eu plentyn yn y profion yn ogystal a chymhariaeth gyda disgyblion drwy Gymru. Byddwn yn defnyddio sgorau'r profion i dargedu unigolion/grwpiau o blant ac i adnabod blaenoriaethau Addysgu/Dysgu i'r dyfodol.

Cydnabyddir bod yna le i brofion ffurfiol achlysurol eraill, boed hynny ar ddiwedd darn o waith, diwedd tymor neu ddiwedd blwyddyn; ond bydd y rhan fwyaf o'r gwaith asesu yn cael ei wneud ar lefel anffurfiol, lle mae'r athrawon yn trafod, arsylwi, ac ymateb ar y pryd. Dylid cofnodi sylwadau pan fo cynnydd nodedig neu anawsterau arwyddocaol. Pan osodir prawf ffurfiol neu dasg asesu, byddwn yn defnyddio ymatebion y plant i ganfod gwendidau cyffredin a fydd yn eu tro yn arwain at ailmweld, adolygu, ac at atgyfnerthu dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol.

Swyddogaeth y Cydlynnydd Asesu (Gethin Elis Thomas)

Y cydlynnydd asesu, sef y pennaeth sy'n gyfrifol am y canllaw hwn. Y cydlynnydd hefyd sy'n gyfrifol am ddarllen y dogfennau perthnasol i'r gyfundrefn asesu ac am sicrhau bod staff yr ysgol yn cydymffurfio

â gofynion statudol y CC. Bydd yn mynychu cyrsiau perthnasol ac yn adrodd yn ôl i'r staff mewn cyfarfodydd HMS ysgol-ganolog.

Cyfrifoldebau Cydlynnydd Asesu'r Ysgol:

1. Bod yn ddolen gyswllt rhwng aelodau'r staff.
2. Cynnig cynhaliaeth a chyingor proffesiynol mewn perthynas ag asesiadau'r CC.
3. Rhannu arferion effeithiol rhwng athrawon.
4. Cyfrannu at arfarnu effeithiolrwydd y cylch asesu ym mhob dosbarth.
5. Ymgynghori ag athrawon pan fo gwahaniaethau rhwng asesiadau athrawon ac unrhyw brofion.
6. Cynnal treialon cytuno / sesiynau safoni o fewn yr ysgol.
7. Casglu enghreifftiau o waith plant ar y gwahanol lefelau yn yr ysgol.
8. Samplo a chadw golwg ar gynnydd y plant mwyaf galluog.
9. Mynychu cyfarfodydd hyfforddiant amrywiol.
10. Adolygu canllaw asesu'r ysgol a sicrhau ei fod yn adlewyrchu y newidiadau cyfamserol yn y cwrs addysg, yn ogystal ag adlewyrchu yr hyn sy'n digwydd o fewn y dosbarthiadau.
11. Paratoi unrhyw drefniadau ar gyfer y Profion Cenedlaethol – e.e. amserlennu, nifer copïau a.y.b.

Casgliad

Mae asesu yn broses barhaus dros gyfnod hir, yn gofyn am arsylwi dydd i ddydd, er nad yw hynny'n golygu cofnodi bob dydd. Wrth asesu'n ofalus byddwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i bob unigolyn, i ymestyn ei alluoedd, ei gymell, ei gynghori, ei arwain a'i gefnogi. Mae hunan asesu yn rhan bwysig o'r broses hon. Gweithred achlysurol, sydd a'i phwyslais ar yr arwyddocaol yn achos pob plentyn yw asesu a chofnodi.

Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____